*Statws This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 14

RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

## RHAN 2

RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

*Cyflogwr yn caffael mewn achos o adleoli cyflogaeth*

7 (1) Pan fo cyflogwr unigolyn yn caffael annedd gan yr unigolyn (boed ar ei ben ei hun neu ynghyd ag unigolion eraill), mae'r caffaeliad wedi ei ryddhau rhag treth os bodlonir yr amodau a ganlyn (ond gweler is-baragraff (3) am ddarpariaeth ynghylch rhyddhad rhannol).

(2) Yr amodau yw—

(a) bod yr unigolyn wedi meddiannu'r annedd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa ar ryw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r cyflogwr yn ei gaffael,

(b) y gwneir y caffaeliad mewn cysylltiad â newid preswylfa'r unigolyn o ganlyniad i adleoli cyflogaeth,

(c) nad yw'r gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad yn fwy na gwerth marchnadol yr annedd, a

(d) nad yw arwynebedd y tir y mae'r cyflogwr yn ei gaffael yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir.

(3) Pan fodlonir yr amodau yn is-baragraff (2)(a) i (c) ond bod arwynebedd y tir a gaffaelir yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir, cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y caffaeliad yw'r swm a gyfrifir drwy ddidynnu gwerth marchnadol yr arwynebedd a ganiateir o werth marchnadol yr annedd.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) mae cyfeiriadau at gaffael yr annedd yn gyfeiriadau at gaffael, drwy drosglwyddo, brif fuddiant yn yr annedd,

(b) mae cyfeiriadau at werth marchnadol yr annedd a'r arwynebedd a ganiateir yn gyfeiriadau at werth marchnadol y prif fuddiant hwnnw yn yr annedd, a gwerth marchnadol y buddiant hwnnw i'r graddau y mae'n ymwneud â'r arwynebedd hwnnw, ac

(c) mae cyfeiriadau at gyflogwr unigolyn yn cynnwys darpar gyflogwr.